# CRYNODEB CYFARFOD

Cyngor Cymuned Llanycil
Cyfarfod Nos Fawrth, Mawrth 10fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Arwel Davies, Euros Puw, Rhys Jones. Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Huw Edwards, Geraint Thomas a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Huw Charles a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Rhagfyr 9fed 2025) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant **- Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r ceisiadau ariannol.**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>

<u>a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.</u>

## <u>iv) Gohebiaeth</u>

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned Gwynedd 2026. **Trafodwyd syniadau a fyddai'n bosib ceisio arian am a cytunwyd i drafod gyda'r trigolion lleol.**
ii) Holiadur Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

<u>b) Cyfoeth Naturiol Cymru.</u>
i) Canolfan Tryweryn – Cyfle Datblygu.

<u>c) Ymgyrch Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg.</u>
i) Polisi'r Arolwg Ordnans ar eu defnydd o enwau lleoedd ar eu mapiau o Gymru. **Cytunwyd i gefnogi eu cais i ysgrifennu at Arolwg Ordnans yn gofyn iddynt newid eu polisi a pheidio gosod enwau Saesneg yn unig ar leoedd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol,**

## <u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>

Ni chyflwynwyd unrhyw gais.

**<u>vi) Materion Ariannol</u>**

a)<u> Archwilio Cymru – Cwblhau archwiliad 2024-25.</u>
**Derbyniwyd yr Adroddiad yn nôl gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a bod dim materion yn achosi pryder iddynt. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.**

<u>b) Penodi Archwiliwr Mewnol.</u>
**Cytunwyd i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon eto eleni.**

<u>c) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27.</u>
**i) Nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y gydnabyddiaeth ddewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb wrth fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y gydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.**

<u>ch) Taliadau.</u>
**Cytunwyd i dalu –**
**Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth), CTHEM (TWE), Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth), Neuadd Maesywaen (Llogi), Neuadd Parc (Llogi) a Cwmni Pum Plwy Penllyn (llwybrau).**

**Cytunwyd hefyd i gymeradwyo i dalu anfoneb Archwilio Cymru (archwiliad allanol) pan bydd y clerc yn derbyn yr anfoneb.**

d) Ceisiadau ariannol.

**Cytunwyd i gyfrannau:-**

| | |
|---|---|
| **1) Neuadd Y Parc** | **£150 (Euros Puw yn datgan buddiant)** |
| **2) Neuadd Maesywaen** | **£150** |
| **3) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn** | **£150** |
| **4) Ysgol Bro Tryweryn** | **£150** |
| **5) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn** | **£75** |
| **6) Sioe Ardal Maesywaen** | **£50 (Rhys Jones yn datgan buddiant)** |
| **7) CFFI Meirionnydd** | **£125** |
| **8) Eisteddfod Urdd Cylch Meirionnydd** | **£25** |
| **9) Cantref** | **£25** |
| **10) Ambiwlans Awyr Cymru** | **£50** |
| **11) Tŷ'r Eos** | **£50** |
| **12) Tŷ Gobaith** | **£25** |
| **13) Macmillan** | **£25** |
| **14) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Y Cyfnod** | **£50** |
| **15) Llen y Llannau** | **£25** |
| **16) Marie Curie** | **£25** |

**vii) Materion lleol.**

**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MAI 12fed YN NEUADD MAESYWAEN.**